**Pwyntiau gweithredu a phwyntiau gwybodaeth yn codi o Grŵp Bioamrywiaeth Ecosystemau Tir Fferm Caeedig Cymru**

**17 Gorffennaf 2014, Ystafell gynadledda VC y llawr cyntaf, Tŷ Ladywell, y Drenewydd, 10.45 – 3.30pm**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd: | Clare Burrows (CB) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Yn bresennol: | Alun Davies (AD) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Rachel Palmer (RP) | Cadwch Gymru'n Daclus |
| | Sarah Hetherington (SH) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Sarah Slater (SS) | Cyngor Sir y Fflint |
| Cofnodion: | Jane Stevens (JS) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Ymddiheuriadau: | Afon Williams | RSPB |
| | Carwyn ap Myrddin | Parc Cenedlaethol Eryri |
| | Cath Shellswell | Plantlife |
| | Rosie Carmichael | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| | Helen Buckingham | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |

Diweddariad Cynllun Bioamrywiaeth Cymru

**AP1: Cylchredeg y ddogfen ymgynghori pan fydd ar gael ym mis Medi (CB)**

IP1: Y terfyn amser ar gyfer gyflwyno cynigion am brosiectau i'r Gronfa Natur yw mis Tachwedd 2014. Cysylltwch â Steve Spode os oes gennych ddiddordeb mewn cyflwyno bid y tu allan i'r saith Parth Gweithredu Natur. Mae digwyddiadau i bobl ddod at ei gilydd i drafod a ellir cydweithio'n cael eu cynnal y mis hwn.
http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/nature-fund/?lang=en

IP2: Cynhelir cynhadledd Cynllun Bioamrywiaeth Cymru flynyddol 2014 ym Mhrifysgol Caerdydd o 10 - 11 Medi. Y thema yw 'Cynllunio Adfer Natur yng Nghymru – dull gweithredu hyd at 2020'. Bydd y manylion archebu'n cael eu gosod ar wefan Cynllun Bioamrywiaeth Cymru cyn bo hir.
http://www.biodiversitywales.org.uk/97/en-GB/Wales-Biodiversity-Partnership-Conference

Diweddariadau Cynefinoedd - Gwrychoedd

IP3: Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru fap digidol o wrychoedd yng Nghymru sydd wedi'i baratoi drwy ddehongli delweddau o loeren (delwedd 2006). Cysylltwch â CB am fanylion.

IP4: Mae Cadwch Cymru'n Daclus yn chwilio am gyllid ar hyn o bryd er mwyn parhau Prosiect Long Forest ym Mannau Brycheiniog ac ymestyn i mewn i ardaloedd eraill yng ngogledd a de Cymru.

Diweddariadau Cynefinoedd - Perllannau

**AP3: Rhowch enw cysylltydd i SS ar gyfer prosiect perllannau (CB).**

**AP4: Cylchredeg yr adroddiad o brosiect PTES a gwblhawyd yn ddiweddar, i baratoi rhestr o berllannau yng Nghymru (CB).**

Diweddariadau Cynefinoedd – Tir Âr

**AP5: Cylchredeg y daflen adnabod a gynhyrchwyd gan Plantlife fel rhan o'r prosiect i adnabod mannau pwysig ar gyfer planhigion tir âr.**

**AP6: Sefydlu pa arweiniad sydd ar gael i Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd ynghylch dewis rhywogaethau / tarddiad hadau ar gyfer hadu a phlannu lleiniau min y ffordd (SS).**

**AP7: Trafod y mater o darddiad hadau wrth blannu ar gyfer peillwyr gyda John Watkins (SH).**

**AP8: Sefydlu pa ddewisiadau sydd yna i gynnwys lleiniau âr yn Glastir uwch (SH).**

Diweddariadau Cynefinoedd - Ffriddoedd

IP5: Mae grŵp llywio Cynllun Bioamrywiaeth Cymru wedi derbyn y cynnig i fabwysiadu ffriddoedd fel cynefin Adran 42 gyda'r amod fod diffiniad o ffridd yn cael ei baratoi. Mae'r gweithgor a sefydlwyd i gytuno ar ddiffiniad wedi paratoi drafft yr hoffai CB ei rannu gyda'r Grŵp Ecosystem Tir Fferm Caeedig am sylwadau.

**AP9: Cylchredeg y diffiniad drafft o ffridd am sylwadau pawb (CB).**

Diweddariad ar y bwlch ymchwil

**AP10: Adolygu'r bylchau tystiolaeth sy'n cael eu nodi ar gyfer tir fferm caeedig yn y Gofrestr Bylchau Tystiolaeth ([http://www.biodiversitywales.org.uk/25/en-GB/WBP-Evidence-Gaps-Project](http://www.biodiversitywales.org.uk/25/en-GB/WBP-Evidence-Gaps-Project)). Anfon syniadau at CB ar ba rhai a ddylai gael blaenoriaeth (Pawb).**

Cyflwyniad ar Brosiect Long Forest

**AP11: Cylchredeg taflenni ar rywogaethau a pherllannau gwarchodedig (SS).**

**AP12: Cylchredeg y papur Prosiect Pontbren ar brofiadau ffermwr gan Sophie Wynne-Jones (AD).**

**AP13: Gosod copi electronig o'r pecyn gwybodaeth gwrychoedd a gynhyrchwyd gan Cadwch Cymru'n Daclus ar ran Gymraeg y wefan Hedgelink (RP/CB).**

Trafodaeth ar waith gwrychoedd

**AP14: Paratoi contract ar gyfer yr hyrwyddwr Cyswllt Ffermio lleol (SH).**

**AP15: Gofyn am slot ddiwedd Awst yng nghylchgrawn Undeb Amaethwyr Cymru / Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr i erthygl ar reoli gwrychoedd (SH).**

**AP16: Trafod gyda Helen y syniad o gael thema gwrychoedd ar stondin Cyfoeth Naturiol Cymru yn y Sioe Fawr 2015 (CB).**